# Maethu Cymru Torfaen: Polisi Gofal Teulu a Ffrindiau

## (Gofal Maeth Personau Cysylltiedig / Maethu Preifat /Cymeradwyaeth Dros Dro Rheoliad 26 o Ofalwyr Maeth Person Cysylltiedig a Gwarcheidiaeth Arbennig)



Cynnwys

Adran 1 – Pwrpas a Chwmpas ........................................................................2
1.1 Pwrpas .................................................................. **Error! Bookmark not defined.**
1.2 Cwmpas ...............................................................................................2
Adran 2 – Fframwaith Cyfreithiol a Phwerau a Dyletswydddau ..........................................3
Adran 3 – Opsiynau ar gyfer Lleoli..................................................................................4
3.1 Gofal Teulu a Ffrindiau (anffurfiol)............................................................................4
3.2 Gofalwr/wyr Maeth Personau Cysylltiedig .................................................................5
3.3 Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.....................................................................6
3.4 Maethu Preifat...........................................................................................6
Adran 4 – Cefnogaeth Ariannol......................................................................................8
Adran 5 – Pa fath o ofalwr person cysylltiedig ydych chi? ..................................................9

**RHHEOLAETH Y DDOGFEN**

| **Teitl:** | Polisi Gofal Teulu a Ffrindiau | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Crëwyd gan:** | Maethu Cymru Torfaen | | | |
| **Dyddiad creu:** | Hydref 2016 | | | |
| **Cynhelir gan:** | Kirsty Cooke | | | |
| **Rhif Fersiwn:** | Newidiwyd gan | Newidiadau a wnaed | Dyddiad Newid | Statws |
| 1.1 | Kirsty Cooke | Newidiadau i'r ddogfen bolisi. | 27.09.2021 | |
| 1.2 | Kirsty Cooke | Newidiadau i'r ddogfen bolisi. | 06.10.2022 | |
| 1.3 | Michelle Simons | Ychwanegu brandio Maethu Cymru | 01.11.2022 | |

# Adran 1 – Pwrpas a Chwmpas

## 1.1 Pwrpas

Pwrpas y polisi yma yw gosod gerbron dull Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o hyrwyddo a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu parhau i fyw gartref, neu gydag oedolyn â Chyfrifoldeb Rhiant, ac sydd felly'n byw gyda theulu a ffrindiau sy'n gofalu amdanynt mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cyfreithiol.

Mae gofal teuluoedd a ffrindiau yn golygu bod perthynas neu oedolyn arall mae'r plentyn/person ifanc yn eu hadnabod yn gofalu amdanyn nhw. O dan adran 81(6) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) (adran 23 (6) (b) Deddf Plant 1989 gynt), dylai Awdurdod Lleol sy'n gosod Plentyn sy'n Derbyn Gofal roi blaenoriaeth i osod gyda '*perthynas, ffrind neu berson arall sy'n gysylltiedig â C* (y plentyn)'.

Ni ddylai'r ddogfen hon gael ei hystyried yn ddatganiad o'r gyfraith yn y maes hwn.

## 1.2 Cwmpas

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn dweud mai dim ond lleiafrif o blant sydd ddim yn gallu byw gyda'u rhiant/rhieni, am ba reswm bynnag, sydd yng ngofal eu Hawdurdod Lleol. Mae llawer mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu magu gan aelodau o'u teuluoedd estynedig, ffrindiau neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r trefniadau yma fel arfer yn cael eu cyfeirio atynt fel cael eu gosod â 'gofalwyr maeth teuluol'. Gall trefniadau anffurfiol gyda theulu a ffrindiau atal plentyn neu berson yn aml rhag mynd i dderbyn gofal

# Adran 2 – Fframwaith Cyfreithiol a Phwerau a Dyletswyddau

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 – ar gael trwy:

legislation.gov.uk/wsi/2018/1339/contents/made/welsh

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) – ar gael trwy:

https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. – ar gael yn

cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf

Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig 2018 - ar gael trwy:

legislation.gov.uk/wsi/2018/573/contents/made/welsh

Gwarcheidwaeth Arbennig - Cod Ymarfer 2018 - ar gael trwy:

cod-ymarfer-ar-weithredu-swyddogaethau-gwasanaethau-cymdeithasol-mewn-cysylltiad-a-gorchmynion-gwarcheidiaeth-arbennig.pdf

Rheoliad 26 (cymeradwyo dros dro gofalwr maeth o blith teulu a ffrindiau) - ar gael trwy:

Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

Rheoliadau Maethu Preifat 2006 – ar gael trwy:

Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006

# Adran 3 – Opsiynau ar gyfer Lleoli

Mae adran 74 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn diffinio'r term 'sy'n derbyn gofal' fel un sy'n cyfeirio at blentyn neu berson ifanc sydd naill ai yng ngofal yr Awdurdod Lleol – h.y. mae'n destun Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro o dan adran 31/38 Deddf Plant 1989 – neu sy'n cael llety gan yr Awdurdod Lleol am gyfnod parhaus o dros 24 awr wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

Mae'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i Awdurdod Lleol ddarparu llety i blentyn/person ifanc i'w gweld yn adran 76 y Ddeddf. Mae'n bwysig nodi bod y term 'plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal' yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd 'mewn gofal' a'r rheiny nad ydynt mewn gofal, ond sydd serch hynny'n derbyn llety gan yr Awdurdod Lleol gyda chytundeb y rheiny sydd â Chyfrifoldeb Rhiant am y plentyn neu'r person ifanc.

Bydd plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn llety yn y ffordd yma'n peidio â bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal pan fo'r Awdurdod Lleol yn ystyried nad oes angen llety ar y plentyn neu'r person ifanc bellach. Serch hynny, bydd plentyn neu berson ifanc sydd mewn gofal yn dal i 'dderbyn gofal' hyd nes diddymu'r Gorchymyn Gofal. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r opsiynau ar gyfer lleoli Plant sy'n Derbyn Gofal, p'un ai ydyn nhw mewn gofal ai peidio

Pan fo plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, naill ai'n wirfoddol, gyda chytundeb y rhieni, neu o ganlyniad i Orchymyn Llys, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ystyried gosod y plentyn neu'r person ifanc yng ngofal rhywun sy'n aelod o'u teulu, neu ffrind sydd â pherthynas â'r plentyn neu'r person ifanc eisoes

Mae gofal gan deulu a ffrindiau yn cynnwys nifer o fathau gwahanol o drefniant, gydag amrywiaeth o statws cyfreithiol. Gall plentyn neu berson ifanc fod yn byw gyda theulu neu ffrindiau trwy un o'r trefniadau canlynol:

## 3.1 Gofal Teulu a Ffrindiau (anffurfiol)

Os nad ydyn nhw'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, gall plentyn/person ifanc fyw gyda pherthynas 'agos' - modrybedd, ewythrod, brodyr, chwiorydd, llys-rhieni neu neiniau a theidiau - heb unrhyw un o'r tu allan yn ymwneud.

Nid oes gan y berthynas Gyfrifoldeb Rhiant a fyddai'n aros gyda'r rhiant/rhieni ond gallan nhw wneud yr hyn sy'n rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc.

Serch hynny, gall yr Awdurdod Lleol ddechrau ymwneud â phethau os yw'n ymddangos bod angen gwasanaethau i ddiogelu neu hyrwyddo lles plentyn neu berson ifanc a allai fod ag anghenion gofal a chefnogaeth. Gallai hyn godi, er enghraifft, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cyfeirio gan unrhyw wasanaeth sy'n gweithio gyda nhw ar gyfer asesiad, gan gynnwys a oedd yna unrhyw bryderon diogelu, neu o ganlyniad i atgyfeiriad gan deulu'r plentyn neu'r person ifanc neu gan y perthnasau sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc yn gofyn am asesiad o'u hanghenion gofal

Yn yr amgylchiadau yma mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i asesu anghenion y plentyn neu'r person ifanc ac, os oes angen yn cael ei nodi, rhoi cefnogaeth o dan Gynllun Gofal a Chefnogaeth (CGCh), a allai gynnwys cefnogaeth ariannol yn ôl disgresiwn.

## 3.2 Gofalwr/wyr Maeth Personau Cysylltiedig

Pan fo plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb, ble bynnag mae hynny'n bosibl, i'r plentyn/person ifanc fyw gydag aelod o'u teulu.

Gall y plentyn neu'r person ifanc gael llety yn wirfoddol gyda chytundeb y rhiant/rhieni neu gall fod yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro neu Orchymyn Gofal. Os yw'n gytundeb gwirfoddol, mae Cyfrifoldeb Rhiant yn aros gyda'r rhiant/rhieni. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhannu Cyfrifoldeb Rhiant os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro neu Orchymyn Gofal a bydd yn rhannu Cyfrifoldeb Rhiant cyfyngedig i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn/person ifanc os yw ef/hi'n destun Gorchymyn Amddiffyn Brys.

Pan fo plentyn neu'r person ifanc yn cael ei osod gyda gofalwyr sydd wedi eu cymeradwyo dros dro fel Gofalwyr Maeth Personau Cysylltiedig o dan Reoliad 26, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i asesu addasrwydd y person cysylltiedig i ofalu am y plentyn neu'r person ifanc. Bydd Asesiad Rheoliad 26 yn cael ei wneud gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc a bydd Cytundeb Rheoliad 26 yn cael ei gyflwyno, ei lofnodi gan y gofalwyr cymeradwy dros dro a'i awdurdodi gan y Rheolwr Grŵp perthnasol. Bydd Asesiad Dichonoldeb Person Cysylltiedig yn cael ei gwblhau wedyn gan Weithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Lleoliadau Teuluol neu gan Weithiwr Cymdeithasol Annibynnol a bydd gofyn iddo gael ei gymeradwyo ar lefel Rheolwr Grŵp er mwyn i'r lleoliad barhau tra bod asesiadau'n digwydd

Gall y plentyn neu'r person ifanc gael eu gosod gyda'r person cysylltiedig cyn cymeradwyaeth lawn fel gofalwr maeth am hyd at 16 wythnos ar ôl dyddiad y lleoliad. Gall y gymeradwyaeth dros dro yma gael ei hymestyn dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a byddai angen cyflwyno gerbron panel maethu er mwyn ymestyn am 8 wythnos bellach. Yn ystod y cyfnod o gymeradwyaeth dros dro, bydd y gofalwyr yn derbyn lwfans i'w cefnogi i ofalu am y plentyn neu'r person ifanc.

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn cwblhau Asesiad Person Cysylltiedig llawn ac yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol, yn ogystal â chefnogaeth emosiynol. Gallan nhw hefyd roi offer hanfodol y gall y gofalwr fod eu hangen er mwy gofalu am y plentyn neu'r person ifanc.

Os yw'r gofalwyr a gymeradwyir dros dro wedyn yn cael eu cymeradwyo fel Gofalwyr Maeth Person Cysylltiedig, bydd y gofalwyr wedyn yn cael Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol o'r Tîm Gosodiadau Teuluol i roi cefnogaeth barhaus, goruchwyliaeth ac Adolygiadau Blynyddol, o leiaf. Bydd y gofalwyr maeth y person cysylltiedig yn parhau i dderbyn lwfansau maethu cyhyd ag y maen nhw'n gofalu am y plentyn/person ifanc fel gofalwr maeth.

Mae disgwyl i bob gofalwr maeth sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn derbyn gofal a chefnogaeth briodol, er enghraifft ymgysylltu â Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc, mynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn, hwyluso a hyrwyddo addysg y plentyn

neu'r person ifanc, eu hanghenion iechyd a'u lles yn gyffredinol. Disgwylir i bob gofalwr maeth lynu wrth y polisïau a'r gweithdrefnau sydd mewn grym ac sy'n eu llywio.

Mae yna Bolisi Awdurdod Dirprwyedig a chytundeb sydd mewn grym unwaith y bydd y plentyn wedi eu gosod ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn gosod gerbron yn eglur unrhyw feysydd o ofalu am y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi eu dirprwyo i'r gofalwyr maeth ac sy'n destun cytundeb â'r rheiny sydd â Chyfrifoldeb Rhiant am y plentyn neu'r person ifanc.

## 3.3 Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Gall perthnasau/gofalwyr wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar ôl gofalu am blentyn neu berson ifanc am o leiaf blwyddyn. Unwaith y bydd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi ei roi, mae gan y Gwarcheidwaid Arbennig Gyfrifoldeb Rhiant uwch am y plentyn neu'r person ifanc. Mae Cyfrifoldeb Rhiant yn dal i gael ei rannu gyda rhiant/rhieni'r plentyn neu'r person ifanc, ond gall Gwarcheidwaid Arbennig arfer eu Cyfrifoldeb Rhiant mewn ffordd fwy annibynnol ar faterion dydd i ddydd fel addysg ac iechyd.

Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i asesu anghenion cefnogaeth y plentyn neu'r person ifanc, y rhiant/rhieni a'r Gwarcheidwaid Arbennig, gan gynnwys cefnogaeth ariannol. Fel rhan o asesiad y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, cytunir ar Gynllun Cefnogaeth, gan gynnwys unrhyw ymrwymiad o gefnogaeth ariannol. Cwblheir ymweliad Cadw mewn Cysylltiad pob blwyddyn, a fydd yn cynnwys asesiad ariannol ac adolygiad o unrhyw daliadau parhaus.

Mae gan yr Awdurdod Lleol Dîm Cefnogaeth Gwarcheidwaid Arbennig sy'n gallu cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd i bob Gwarcheidwad Arbennig trwy gydol cyfnod eu Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Am wybodaeth bellach, nodwch: Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## 3.4 Maethu Preifat

Maethu preifat yw pan fo plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed (o dan 18 os yw'n anabl) yng ngofal rhywun nad yw yn rhiant na'n 'berthynas agos' iddyn nhw am 28 diwrnod neu fwy. Diffinnir perthynas agos fel 'nain neu daid, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (gwaed llawn neu a hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) neu lys-riant'. Nid yw'n cynnwys plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hwn yn drefniant preifat rhwng rhiant a'r gofalwr, mae'r rhiant yn cadw Cyfrifoldeb Rhiant ac yn cytuno'r trefniant gyda'r gofalwr maeth preifat.

Mae gan y rhiant a'r gofalwr gyfrifoldeb cyfreithiol i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol; mae methu a gwneud hynny'n drosedd. Pan fo'r Awdurdod Lleol yn gwybod am drefniant arfaethedig neu gyfredol, mae'n rhaid iddynt asesu'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n dderbyniol ac er budd y plentyn neu'r person ifanc. Os penderfynir, ar ôl yr asesiad, bod y trefniant yn gallu parhau, bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn ymweld â'r plentyn neu'r person ifanc a'r teulu'n rheolaidd (o leiaf pob 6 wythnos yn y flwyddyn gyntaf, yna pob 12 wythnos wedyn) i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc a sicrhau bod y trefniadau yn parhau'n dderbyniol.

Mae gofalwr maeth preifat yn gyfrifol am ofal dydd i ddydd y plentyn neu'r person ifanc a dylai'r gofal fod yn barhaus. Mae'r rhiant (neu berson â Chyfrifoldeb Rhiant) yn cadw cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i asesu a monitro lles pob plentyn neu berson ifanc sy'n cael eu maethu'n breifat. Os yw'r Awdurdod Lleol yn credu bod trefniant yn anaddas ac na all y plentyn neu'r person ifanc gael eu dychwelyd at eu rhieni, mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu pa gamau i'w cymryd i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn olygu cael hyd i lety amgen gyda'r Awdurdod Lleol..


Am wybodaeth bellach, ewch i: Maethu Preifat | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Adran 4 – Cefnogaeth Ariannol

Bydd pob gofalwr maeth sydd wedi eu cymeradwyo, gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu cymeradwyo o dan reoliad 26 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, yn derbyn lwfans wythnosol ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc yn eu gofal.

Gwelwch y Polisi Lwfansau a Threuliau Gofalwyr Maeth am wybodaeth bellach.

# Adran 5 – Pa fath o ofalwr person cysylltiedig ydych chi?




*nain, taid, chwaer, brawd, ewyrth, modryb neu lys-riant plentyn

[wales-kinship-care-guide-english-web.pdf (cysur.wales)](wales-kinship-care-guide-english-web.pdf)